

Y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) Dadansoddiad o'r Ymgynghoriad

Hydref 2020

Mae'r papur briffio hwn yn crynhoi dadansoddiad annibynnol o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn cynnig adborth ar y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru). Y bwriad yw ategu darnau eraill o dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor, a chefnogi'r trafodaethau sy'n mynd rhaddi yngylch y ddeddfwriaeth.

Cefndir

Cafwyd 230 o ymatebion i'r ymgynghoriad gan ystod eang o unigolion a sefydliadau sydd â diddordeb mewn addysg, gan gynnwys rhieni, athrawon ac ymarferwyr. O'r rhain, cyflwynodd 121 o ymatebwyr eu barn mewn rhinwedd bersonol. Cafwyd 89 ymateb arall gan amryw sefydliadau, gan gynnwys meithrinfeydd, ysgolion, grwpiau â diddordeb, a chyrrff cynrychioliadol a llywodraethol. Cafwyd 20 ymateb gan unigolion mewn rhinwedd broffesiynol. Roedd y rhain yn cynnwys ymatebion gan athrawon ac arweinwyr ysgolion yn bennaf. I gael manylion y cwestiynau yn yr ymgynghoriad, gweler yr Atodiad ar ddiwedd y ddogfen hon.

Er mwyn deall y materion a'r themâu a godwyd gan yr ymatebwyr, cynhaliom ddadansoddiad a oedd yn ceisio deall a mapio'r ystod o sylwadau a safbwyntiau gan yr ymatebwyr o ran y cynigion. Roedd hyn yn cynnwys ystyried pob ymateb yn eu tro, gan dynnu sylw at y themâu a'r materion a godwyd.

Ymatebion gan ymgyrchoedd

Cafodd yr ymgynghoriad 46 o gyflwyniadau tebyg neu union yr un fath sy'n awgrymu y bu ymgyrchoedd cydgysylltiedig. Roedd yr ymatebwyr hyn yn tueddu i fod â phryderon yn benodol ynghylch y cwricwlwm fel y mae'n ymwneud ag Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a'r gwersi Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Roeddent yn codi pryderon ynghylch priodoldeb a sensitifrwydd y gwersi, a'r datgysylltiad canfyddedig rhwng gwerthoedd ymatebwyr a ffocws a chynnwys y gwersi, yn enwedig o ran rhyw a pherthnasoedd. Roedd cryn bryder hefyd ymhlith ymatebion gan ymgyrchoedd yn ymwneud â dileu hawl rhieni i dynnu eu plant o wersi o'r fath:

RSE being brought to our children's schools with little explanation on a very serious and important change... [The Bill] does not give parents the right to withdraw their

children, breaching parents' rights to respect for their religious and philosophical convictions...

Unigolyn¹

Roedd yr ymatebion hyn yn gyfran sylweddol o'r rhai a oedd yn gwrthwynebu'r Bil, gan gynnwys 61.3 y cant o'r rhai nad oeddent yn cefnogi egwyddorion sylfaenol y ddeddfwriaeth.

Darllen a Dehongli'r Dadansoddiad hwn

Mae'r dadansoddiad hwn yn cynnig crynodeb manwl o'r prif themâu a'r materion a godwyd gan ymatebwyr. Mae'n bosibl bod gan y rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad farn nad yw o reidrwydd yn gynrychioliadol o'r gymuned ehangach, gan gynnwys rhieni a gofawyr, ymarferwyr, athrawon ac arweinwyr ysgolion ledled Cymru. Gan hynny, rydym wedi bod yn ofalus wrth gyfleu pa mor amlwg oedd sylwadau neu safbwyntiau penodol.

Dylid deall felly bod y dadansoddiad hwn yn rhoi syniad o farn y rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad, yn hytrach na datganiad diffiniol o farn a safbwyntiau'r gymuned addysg ehangach a'r cyhoedd mewn perthynas â'r Bil.

1 Y prif negeseuon

Roedd yr ymatebwyr a fynegodd wrthwynebiad i'r Bil yn tueddu i ganolbwyntio ar agweddau ar y cwricwlwm ei hun, megis cynnwys penodol y byddai plant a phobl ifanc yn ei ddysgu yn yr ystafell ddosbarth o ganlyniad. Roedd rhai yn pryderu, er enghraifft, am Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a phriodoldeb darpariaeth o'r fath, yn enwedig ar gyfer plant ifanc. Roedd dileu hawl rhieni i dynnu plant o wersi o'r fath yn gwaethygu'r pryderon hyn. Roedd pryderon pellach ynghylch Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, yn enwedig o ran sut y byddai'n effeithio ar ysgolion â chymeriad crefyddol. Teimlai rhai, er enghraifft, fod y Bil yn trin rhai ysgolion a chymunedau yn wahanol, tra bod eraill, i'r gwrthwyneb, yn teimlo nad oedd y Bil yn mynd yn ddigon pell i hyrwyddo darpariaeth blwraliaethol a chytbwys ar draws pob ysgol.

Lle'r oedd ymatebwyr yn cynnig cefnogaeth amodol i'r cynigion, roeddent yn tueddu i ganolbwyntio ar faterion a heriau yn ymwneud â gweithredu'r cwricwlwm newydd yn ymarferol mewn lleoliadau addysg ac ysgolion. O'r safbwyntiau hyn, roedd tuedd i feddwl yn bositif am egwyddorion ac amcanion y Bil, ond roedd yr ymatebwyr yn aml yn teimlo bod angen datrys nifer o ystyriaethau a rhwystrau ymarferol er mwyn i'r cwricwlwm newydd fod yn effeithiol. Meddai rhai fod angen mwy o staff cyfrwng Cymraeg, er enghraifft, neu bod angen darparu amser a lle i ymarferwyr ddatblygu eu gwybodaeth a'u hyder i gyflawni agweddau ar y cwricwlwm newydd yn effeithiol. Roedd pryderon hefyd ynghylch effaith y Bil ar y Gymraeg, gan gynnwys wrth hyrwyddo darpariaeth cyfrwng Cymraeg.


¹ Ymatebion 153, 166, 168, 178, 181, 183, 188, 190, 194, 209, 217, 219, 220, 222, 223, 226, 227

Roedd y rhai a oedd yn cynnig sylwadau mwy cadarnhaol yn tueddu i dynnu sylw at bwysigrwydd y cwricwlwm newydd o ran gwella canlyniadau. Teimlai llawer y gallai'r cwricwlwm newydd gynnig profiadau dysgu cyfoethocach, ehangach a mwy ystyrlon i blant a phobl ifanc. Roedd y safbwyntiau hyn yn aml yn deall y Bil a'r cwricwlwm newydd o safbwynt y cyfyngiadau canfyddedig yn y trefniadau cyfredol. Roedd y cwricwlwm newydd yn cynnig ffyrdd o fynd i'r afael â rhai o'r cyfyngiadau hyn, gan ddarparu cyfleoedd dysgu mwy perthnasol a gafaelgar i blant a phobl ifanc. Dywedodd rhai ymatebwyr, er enghraifft, y byddai'r cwricwlwm newydd yn annog gwell ymgysylltiad a chefnogaeth o ran lles cymdeithasol ac emosiynol.


O fewn y sylwadau a'r safbwyntiau eang hyn, roedd cryn amrywiaeth yn union natur a sylwedd y materion a'r pryderon a godwyd gan ymatebwyr. Trafodir y themâu a'r materion hyn yn fanylach drwy gydol y papur hwn.

2 Safbwyntiau Cyffredinol

Gofynnwyd yn gyntaf i'r ymatebwyr a ydyn nhw'n cefnogi egwyddorion sylfaenol y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru). Roedd y cwestiwn hwn yn gofyn am ganfyddiadau cyffredinol yr ymatebwyr o'r ddeddfwriaeth. Gyda'i gilydd, roedd dwy ran o dair o'r ymatebwyr o blaid y Bil yn fras. Roedd 30 y cant o'r ymatebwyr hynny yn ei gefnogi'n amodol, gan awgrymu eu bod yn cefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil ond bod ganddynt bryderon penodol am rai agweddau. I'r gwrthwyneb, nododd 33 y cant o'r ymatebwyr nad oeddent yn cefnogi'r Bil.



Fodd bynnag, nid oedd y safbwyntiau ynghylch y Bil wedi'u gwasgaru'n gyfartal ymhlith yr ymatebwyr. Roedd ymatebion sefydliadau a gweithwyr proffesiynol yn llawer mwy tebygol o fod yn gefnogol i'r Bil na'r rhai a ymatebodd mewn rhinwedd bersonol. Yn gyffredinol, roedd yr unigolion a ymatebodd i'r ymgynghoriad mewn rhinwedd bersonol yn cynrychioli 94.6 y cant o'r rhai a nododd nad oeddent yn cefnogi'r egwyddorion sylfaenol sydd wedi'u cynnwys yn y Bil. Roedd cyfran sylweddol o'r rhain yn deillio o ymatebion yn sgil ymgyrchoedd (61.3 y cant):



Yna, gofynnwyd i'r ymatebwyr ymhelaethu ar eu barn ynghylch egwyddorion cyffredinol y Bil.

Sylwadau Cadarnhaol

O ran egwyddorion cyffredinol y Bil, roedd yr ymatebwyr a oedd o blaid y Bil yn tueddu i ganolbwyntio ar y canlyniadau positif i blant a phobl ifanc yn sgil cyflwyno'r cwricwlwm newydd. Roedd rhai o'r farn y gallai'r cwricwlwm newydd rymuso athrawon ac ennyn diddordeb pobl ifanc mewn cyfleoedd dysgu mwy ystyrlon a pherthnasol. At ei gilydd, roedd y safbwyntiau hyn gan amlaf yn ystyried y cwricwlwm newydd fel cam positif:

Mae'r cwricwlwm arfaethedig i Gymru yn nodi'n glir y wybodaeth, y sgiliau a'r profiadau sylfaenol y dylai dysgwyr eu hennill o ddilyn cwricwlwm eang a chytbwys rhwng 3 ac 16 oed.

Cymwysterau Cymru, 22

We support the principles of the Bill and agree that there is need for legislation in this area to support intent. We are content that the approach taken is evidence based and has been formulated through extensive engagement with a range of stakeholders, including experts in the field of education reform, teachers, public and third sector

organisations and children and young people... We are content with the approach taken to enhance the teaching and learning of Welsh for learners, particularly proposals which will seek to improve the Welsh language skills amongst learners in English medium schools.

Plant yng Nghymru,117

Roedd un thema gyffredin a oedd yn ennyn ymatebion mwy cadarnhaol a oedd yn canolbwyntio ar gyfyngiadau canfyddedig y trefniadau cyfredol. Mae hyn yn cynnwys yr hyn yr oedd rhai yn ei deimlo fel natur or-ragnodol y cwricwlwm cyfredol, ynghyd â threfniadau atebolrwydd beichus sy'n gwneud trefniadau addysgu yn fwy cul. O'r safbwyntiau hyn, byddai'r cwricwlwm newydd yn gweithio i ddatrys y cyfyngiadau. Roedd barn gadarnhaol am yr elfennau fel y pwyslais ar ddysgu cyfannol, trawsgwricwlaidd, yr hyblygrwydd a gynigir i athrawon ac ysgolion, a mwy o rôl i asesiadau ffurfiannol. O'r safbwyntiau hyn, roedd y Bil yn cynrychioli fframwaith deddfwriaethol ar gyfer bwrw ymlaen â'r gwaith o ddiwygio'r cwricwlwm, a themlent fod hyn yn angenrheidiol ac yn bwysig:

The need for a new curriculum in Wales is welcomed. The current model is based on a framework developed many years ago and is no longer fit for purpose. It has allowed for a narrowing of teaching and learning which has led to teaching and learning being something that is 'done' to learners instead of them being an integral part.

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, 158

Cefnogaeth Amodol a Phryderon Ymarferol

Soniodd llawer o'r ymatebwyr am amodau neu bryderon, gan gynnwys y sawl a oedd yn fwy cadarnhaol ynglŷn â'r Bil. Roedd y rhain yn aml yn canolbwyntio ar faterion ymarferol, megis yr amser, yr adnoddau a'r datblygiad proffesiynol y bydd eu hangen ar athrawon er mwyn gweithredu'r cwricwlwm newydd yn llwyddiannus. Gallai hyn awgrymu bod rhai o'r ymatebwyr wedi darllen a dehongli'r Bil o safbwynt yr hyn y byddai'n ei olygu yn ymarferol iddyn nhw eu hunain a'u hysgolion.

Mae un pryder allweddol, er enghraifft, yn canolbwyntio ar y graddau y dehonglir ac y gweithredir y cwricwlwm newydd ar lefel leol. Er bod rhai yn teimlo bod hyblygrwydd a dehongliad lleol yn nodweddiadol bwysig o'r cynigion, roedd eraill yn awgrymu y gallai hyn fod yn broblemus gan y gallai arwain at gryn amrywiad yn ansawdd a chynnwys y ddarpariaeth a'r gefnogaeth a gynigir o fewn ac ar draws ysgolion:

We believe [that] flexibility will be particularly important in allowing schools to provide different support to different learners to meet expectations and tackle different gaps in attainment. This bill should fit closely with the Additional Learning Needs and Education Tribunal (Wales) Act in allowing for a broadening of learning, ensuring that pupils with additional learning needs are supported to overcome barriers to learning and achieve their full potential... Our members note that whilst increased flexibility for schools is a huge opportunity, it will bring challenges in ensuring quality and...

...standards. This may especially be the case for pupils with additional learning needs as schools will vary in their level of experience of supporting such pupils.

Coleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd, Cymru, 145

O'r safbwyntiau hyn, byddai strwythurau deddfwriaethol ar gyfer y cwricwlwm a threfniadau craffu priodol ac effeithiol yn bwysig er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth yn gyson ac o safon uchel. At hynny, roedd rhai yn teimlo bod angen diweddarau'r cwricwlwm newydd dros amser ac roeddent am i drefniadau ymgynghori a chraffu gael eu sefydlu er mwyn osgoi i'r cwricwlwm newydd gael ei or-ragnodi neu ei orlwytho. O'r safbwyntiau hyn, gallai hyblygrwydd a dehongliad lleol fod yn fuddiol, ond rhaid rheoli hyn yn ofalus:

On the one hand, a very deliberate rowing back from prescription affords teachers in Wales new levels of professional autonomy – and decentralises power over what is taught from government to the site of practice. This is a strength of the model, in that it builds agency and respects the craft of teaching as something dependent on experience, expertise and training. But on the other hand, the liberation of teachers from curriculum rules and regulation is also an inherent weakness; by definition, it encourages a break from uniformity and opens the door to a disparate system characterised by difference. In lieu of any steer on content, what children do learn might be dependent on an individual teacher's ideology, lens or general aptitude. This is a significant risk and in the absence of a mechanism to ensure at least a level of consistency across the piece, there is a very real danger that pupils in Wales will grow up with little or no understanding of some of the major cultural and historical influences of our time.

Unigolyn, 8

Un datrysiad posibl i'r mater hwn a godwyd gan nifer oedd pwysigrwydd datblygiad proffesiynol. O'r safbwyntiau hyn, pwysleisiodd yr ymatebwyr yr angen am gyfleoedd hygyrch o ansawdd uchel i ymarferwyr ac athrawon adeiladu'r sgiliau a'r hyder sy'n angenrheidiol i gyflawni'r cwricwlwm newydd yn effeithiol. Roedd hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer meysydd a oedd yn newid yn sylweddol, gan gynnwys Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, Iechyd a Lles a'r Gymraeg.

[We] acknowledge that the principle set out by the Welsh Government that the 'vision for Wales is for a fully inclusive education system where all learners have equity of access to education that meets their needs and enables them to participate, benefit from and enjoy learning' meets the tests that the Union has set out. Nevertheless, the NASUWT maintains that, in order to bring this about, it is a requirement for teachers, headteachers and all staff in schools to be properly supported.

NASUWT, 21

Roedd datblygiad a chefnogaeth broffesiynol hefyd yn bryder a godwyd gan rai a oedd yn gweithio mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar:

Within the non-maintained sector, we do believe that the creation of a curriculum framework will be a positive addition for the sector... We do have a concern that, as yet, the level of support and training for the non-maintained sector does not match that provided for in the maintained sector. It will be important for Welsh Government to consider how the practitioners in the non-maintained sector are supported through training to implement the change in practice.

Blynyddoedd Cynnar Cymru, 19

Pan ofynnwyd iddynt am effaith bosibl COVID-19, roedd nifer o'r farn bod yr heriau cyfredol sy'n wynebu ymarferwyr, athrawon ac arweinwyr yn esgor ar rwystr posibl rhag ymgysylltu â'r cwricwlwm newydd. O'r safbwyntiau hyn, nid yw'r gofynion cyfredol a roddir ar athrawon yn gadael fawr o amser i gynllunio a pharatoi, yn ogystal â chyflawni unrhyw ddatblygiad proffesiynol. Tynnodd ambell un sylw at faterion fel y prinder athrawon llanw i fynychu hyfforddiant a bod rhywfaint o hyfforddiant wedi'i ganslo oherwydd cyfyngiadau'r cyfnod clo. Yn gyffredinol, roedd rhai o'r farn y dylai'r ddeddfwriaeth ailedrych ar yr amserlenni o ran gweithredu'r cwricwlwm newydd, neu sicrhau bod cefnogaeth a hyfforddiant digonol ar gael:

Any workload implications need to be managed to ensure that teachers and support staff have enough time to undertake the extra expectations within the Bill, outside of the classroom. Extra INSET days allocated are welcome – but more time is needed to ensure that training can be undertaken and the work completed, especially in the context of Covid-19 and the additional work that that has meant to keep staff and learners safe and learning. We would welcome a workload impact assessment.

Undeb Addysg Genedlaethol Cymru, 49

Roedd mater allweddol arall yn ymwneud â darpariaeth y Gymraeg, gan gynnwys mewn lleoliadau 'Blynyddoedd Cynnar'. Cafwyd cryn wrthwynebiad gan rai ymatebwyr i'r geiriad newydd ar gyfer addysgu Cymraeg a Saesneg. Roeddent yn credu bod y geiriad newydd yn awgrymu bod y Saesneg yn bwnc gorfodol mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg a byddai hyn yn tansilio darpariaeth y Gymraeg gan danseilio amcanion ieithyddol ehangach:

Credwn y tansilior y Gymraeg o fewn y Bil o'r cychwyn cyntaf. Yn Rhan 1, 3.2., rhestrir y Saesneg (yn ogystal â'r Gymraeg) fel elfen fandadol o fewn y meysydd dysgu a phrofiad. Ar yr olwg gyntaf, rhoes hyn statws cydradd i'r ddwy iaith, ac eto, byddwn yn dadlau'n frwd bod hwn yn camwahaniaethu yn erbyn y Gymraeg.

Dyfodol i'r Iaith, 30

Aeth Comisiynydd y Gymraeg ymhellach. Roedd ymateb y Comisiynydd yn trafod pryderon cryf yn ehangach nad yw'r Bil yn hyrwyddo darpariaeth y Gymraeg yn ddigonol ac nad yw'n gwneud digon i drawsnewid y ffordd y mae'r Gymraeg yn cael ei haddysgu mewn ysgolion cyfrwng Saesneg:

Rydym yn cefnogi mwyafrif egwyddorion ac amcanion Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru). Er hyn, mae gennym bryderon sylweddol ynglŷn â'r graddau y mae cynigion deddfwriaethol y Bil yn debygol o wireddu gweledigaeth y Llywodraeth y bydd cynnydd sylweddol yn nifer y disgyblion fydd yn gadael y sector addysg statudol yn siarad Cymraeg a Saesneg yn hyderus. Mae'r pryderon hyn yn seiliedig ar ddau ddiffyg sylfaenol yn y Bil:

- Nid yw'n gosod sail gadarn ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg, ac felly nid yw'n atgyfnerthu amcan polisi'r Llywodraeth i ehangu addysg cyfrwng Cymraeg ar draws Cymru.*
- Nid yw'n gosod disgwyliadau a gofynion deddfwriaethol digon cadarn er mwyn symbylu'r newidiadau fydd eu hangen i'r ffordd y mae'r Gymraeg yn cael ei haddysgu a'i defnyddio mewn ysgolion cyfrwng Saesneg a dwyieithog – a hynny er mwyn adlewyrchu amcanion a thargedau polisi strategaeth Cymraeg 2050.*

Comisiynydd y Gymraeg, 70

Ochr yn ochr â darpariaethau ynghylch y Gymraeg, soniodd yr ymatebwyr am sawl pwnc, disgyblaeth a sgiliau nad oeddent yn teimlo eu bod yn cael eu hadlewyrchu na'u hyrwyddo'n ddigonol yn y cwricwlwm newydd. Roedd hyn yn cynnwys ystod amrywiol o bynciau, gan gynnwys leithoedd Tramor Modern a'r Dyniaethau. Cafwyd awgrymiadau pellach ar gyfer pynciau a allai fod yn fwy amlwg, gan gynnwys ymhlith pethau eraill iechyd meddwl, BME a hanes Cymru, cymorth cyntaf, achub bywyd a llythrennedd ariannol.

Yn hyn o beth, efallai fod y safbwyntiau hyn wedi cael eu llywio gan y canfyddiad nad yw'r pynciau y soniwyd amdanynt yn cael digon o sylw yn y diwrnod ysgol ar hyn o bryd, neu y byddai dyluniad y cwricwlwm yn arwain at ysgolion yn rhoi llai o sylw iddynt. Yn yr ymatebion i'r perwyl hwn, pryder pellach oedd na fyddai'r pynciau dan sylw yn cael digon o sylw oni bai fod disgwyliad yn cael ei osod ar ysgolion i gyflawni hynny, naill ai trwy fandadu ysgolion, neu drwy roi mwy o gefnogaeth ac adnoddau iddynt:

In order to satisfactorily achieve the Four Purposes, sufficient attention must be given to the detail that makes up the guidance for the AoLEs, and the mandatory cross-curricular skills, and how these mandatory areas are identified: in other words, what is it about them that necessitates their mandatory status; how this will be delivered, and is there anything missing which could be identified now, rather than having to make significant amendments to the legislation at a later date.

Sylfaen Cymru, 210

Thema allweddol arall a godwyd gan y rhai sy'n cefnogi'r Bil yn amodol oedd y perthnasoedd a'r cydgysylltiad rhwng y cwricwlwm a threfniadau cymwysterau. Roedd hyn yn deillio o'r ddealltwriaeth bod cwricwlwm newydd yn cynrychioli gwriad sylweddol o'r trefniadau cyfredol a gynlluniwyd i gefnogi'r cymwysterau sydd i'w cael ar hyn o bryd:

There is a serious risk of incoherence between a curriculum framework that eschews a subject-based approach and a qualifications framework that is entirely subject-based and is widely understood by employers, parents, learners and education providers both within and beyond Wales. Addressing the qualifications-related implications of reform as an afterthought does not represent a credible plan for reform.

NASUWT, 21

Pryderon ynghylch y cynigion

Fel yr amlygwyd yn gynharach, roedd y rhan fwyaf o'r gwrthwynebiad i'r Bil yn canolbwyntio ar ddarpariaethau ynghylch gwersi Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a gwersi Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Mae'r gwrthwynebiad i Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn deillio, i raddau helaeth, o'r ffaith y dilëir hawl rhieni i dynnu eu plant o wersi o'r fath. Roedd y rhai a fynegodd y safbwyntiau hyn yn tueddu i ganolbwyntio ar briodoldeb rhyw a rhywioldeb yn y cwricwlwm, yn enwedig ar gyfer plant iau. Efallai fod hyn yn adlewyrchu camddealltwriaeth o union natur a bwriad y diwygiadau, ond mae'n naratif pwerus sydd wedi siapio canfyddiadau rhai ymatebwyr sy'n gweld y cynigion yn negyddol.

Mae'r ymatebwyr a oedd yn gwrthwynebu'r darpariaethau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn deillio yn bennaf o ddarpariaethau i'r graddau y maent yn ymwneud ag ysgolion â chymeriad crefyddol. Mae'r ymatebwyr hyn yn gwrthwynebu'r diwygiadau am nifer o resymau. Cyfeiriodd rhai at y canfyddiad bod darpariaeth blwraliaethol o ansawdd uchel eisoes yn bodoli mewn ysgolion â chymeriad crefyddol ac nad oes angen y diwygiadau. Roedd rhai yn anghyffyrddus â'r ffaith y dilëir hawl rhieni i dynnu eu plant o'r gwersi ac yn credu y bydd hyn yn arwain at gynnydd mewn addysg gartref. Roedd ymatebwyr eraill ar ddeall y gwahaniaethir yn erbyn rhai ysgolion gan eu bod yn gorfod cynnig Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ochr yn ochr â darpariaeth enwadol a byddai hyn yn arwain at oblygiadau o ran llwyth gwaith a chost ychwanegol:

We already have in place a robust curriculum that allows for learning and dialogue about other faiths, religions and philosophical convictions. Therefore, we already meet the legal requirements. What we teach and how we teach it is balanced, but it would appear that the government doesn't trust us to do this. Providing a second syllabus will be a burden on schools in terms of workload and cost. Catholic schools are clearly being treated differently to other schools because of their nature; this is discriminatory practice.

Athro Astudiaethau Crefyddol, 200

Yn groes i'r farn hon, roedd rhai'n credu nad yw'r Bil yn mynd yn ddigon pell i annog darpariaeth Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg blwraliaethol ac unffurf ar draws pob ysgol. O'r safbwyntiau hyn, roedd caniatáu i ysgolion gwirfoddol a reolir barhau i roi gwersi Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg enwadol yn cael ei ystyried yn broblem, gan gynnwys sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael gwersi cytbwys ar ffydd mewn cymdeithas:

We deeply regret that by permitting faith schools to continue to use the subject to promote their particular religious outlook through the denominational syllabus, many pupils in Wales will continue to be denied access to genuinely non-partisan and balanced education about the full range of religious and non-religious worldviews.

Y Gymdeithas Seciwlar Genedlaethol, 50

3 Yr angen am ddeddfwriaeth

Ar ôl pwysu a mesur, roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr, gan gynnwys y rhai a oedd yn cefnogi'r Bil neu'n ei gefnogi'n amodol, yn teimlo bod y ddeddfwriaeth yn angenrheidiol er mwyn cyflawni'r cwricwlwm newydd. Teimlai nifer y byddai'r ddeddfwriaeth yn sicrhau bod y cwricwlwm yn cael ei weithredu'n gyson ledled Cymru:

Cytunwn y bydd y ddeddfwriaeth yn cefnogi cyflawni'r Bil a'i bod yn gallu cefnogi cysondeb a thegwch pob dysgwr tra'n cefnogi'r egwyddor gyfrifolaeth, gan roi'r gofod proffesiynol i ysgolion ddylunio cwricwlwm sy'n ddilys, yn berthnasol ac sy'n ymateb i'r ardal.

Consortiwm, 189

Almost certainly, [we need the bill] to ensure that the proposed reforms do actually take place across the whole of Wales.

Pennaeth, 84

Lle'r oedd pryderon, roedd y rhain yn tueddu i ganolbwyntio ar oblygiadau'r Bil i ysgolion â chymeriad crefyddol. Roedd peth petruso, er enghraifft, gan Gynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol ynghylch y newid enw arfaethedig o ran Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg:

SACRE members feel that the name change to RVE is unsuitable. WG has not evidenced or appropriately justified their claim that the name RVE better reflects the scope of the subject as suggested on the Explanatory Memorandum. It does not. SACRE would like to urge WG to re-examine the name change to RVE before the Bill is made law.

Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol Torfaen, 130

4 Rhwystrau posibl o ran gweithredu'r Bil

Cynigiodd yr ymatebwyr ystod amrywiol o rwystrau yr oeddent yn teimlo a allai danseilio gweithrediad y cwricwlwm newydd mewn lleoliadau ac ysgolion ledled Cymru. Roedd yr ymatebwyr yn aml yn ailadrodd materion a themâu yr oeddent wedi'u codi mewn atebion i

gwestiynau blaenorol. Roedd y rhain yn cynnwys yr amryw faterion a heriau ymarferol a logistaidd a amlinellwyd uchod. Soniodd rhai ymatebwyr, er enghraifft, eu bod yn pryderu ynghylch pa mor gyflym yr oedd y diwygiadau yn digwydd. O'r safbwyntiau hyn, roedd yr amserlen arfaethedig yn afrealistig oherwydd yr heriau sy'n wynebu athrawon ac ysgolion wrth ymateb i COVID-19:

The timeframe for the passage of the Bill has remained unaltered despite the extraordinary demands placed upon schools and governing bodies as a result of the Covid 19 pandemic. There is no account taken of the level of planning and preparation required in order for head teachers to meet their statutory duty to implement and publish a curriculum for their school. There is no indication of the potential impact on the opportunities for the professional learning required over the next two years in order to implement fully the duties imposed on head teachers and governing bodies.

Y Gwasanaeth Addysg Gatholig, 225

We do not think the bill is taking into account the pressures faced in schools during the pandemic. Also, we feel more investment needs to be made available to allow teachers the time and space to design high-quality local curricular. This pressure can be relieved somewhat, if a core of national resources were created around, for example, key aspects of Welsh and UK history (including BAME culture).

Cyfarwyddiaeth Addysg, Awdurdod Lleol Abertawe, 58

Roedd rhwystrau ymarferol pellach yn cynnwys gofynion ariannol ac adnoddau i weithredu'r cwricwlwm newydd yn effeithiol, a phwysigrwydd trefniadau datblygu proffesiynol wrth sicrhau bod gan ymarferwyr, athrawon ac arweinwyr ysgolion yr hyder a'r sgiliau i roi'r cwricwlwm newydd ar waith. Trafodwyd y materion hyn hefyd mewn cwestiynau dilynol, fel yr amlinellir maes o law.

5 Canlyniadau anfwriadol

Soniodd yr ymatebwyr am ystod amrywiol o ganlyniadau anfwriadol posibl wrth gyflwyno'r Bil. Roedd un o'r themâu amlycaf yn canolbwyntio ar ddehongli lleol a sybsidiaredd lleol, a'r effeithiau negyddol posibl a allai hynny eu cael ar safonau ac unffurfiaeth y ddarpariaeth ar draws ac o fewn ysgolion. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y byddai angen ystyried a chefnogi hyn yn ofalus er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw wahaniaethau:

Ministers may wish to note that, where teaching and leadership is weak, the rate of progress may initially be limited. The explanatory memorandum takes this into account and the plans for professional learning to build capacity in leadership and teaching will contribute to mitigating this. Estyn inspection arrangements will continue to evaluate the quality of provision and leadership and we will align our inspection framework to support the evaluation of the new curriculum.

Estyn, 20

Roedd y mater hwn i'w weld mewn pryderon ehangach gan rai o'r ymatebwyr, gan gynnwys o ran y goblygiadau ar gyfer cyfleoedd cyfartal a chanlyniadau. Teimlai rhai, pe na bai hyn yn cael ei wirio, y gallai'r cwricwlwm newydd waethygu'r anghydraddoldebau presennol, yn enwedig o ran effeithiolrwydd yr addysg. O'r safbwyntiau hyn, mae'n bosibl na fydd y cwricwlwm newydd yn effeithiol wrth gau'r bwlch cyrhaeddiad:

It is possible that the challenges of implementing a cultural change of this scale may increase the gap between the best performing schools (often situated in more affluent areas) and least performing schools (often situated in more deprived areas), if adequate resourcing, professional training and involvement of a broader range of people in learning are not introduced by Government.

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, 55

Roedd pryderon hefyd ynghylch y canlyniadau anfwriadol ar weithgareddau penodol neu ddysgu mewn ysgolion. Roedd y mater hwn yn ymestyn i nifer o feysydd o'r cwricwlwm lle'r oedd ymatebwyr yn teimlo na roddwyd sylw digonol, neu lle nad oeddent yn elfen orfodol:

We appreciate that devolving decision making to teachers and ensuring the embedding of the health and wellbeing area of learning and experience across the whole curriculum is to be welcomed, we also have concerns regarding the unintended consequences around the amount of sport and physical activity undertaken by pupils going forward. The most recent School Sports Survey (2018) showed that the average number of minutes children were participating in sport was 90. The recommended average number is 120, and therefore it is entirely possible that with a curriculum which is delivered on a school by school basis, this number could vary hugely across the country, as well as possibly dropping sharply if it is not a requirement of schools to ensure 120 minutes of sport.

Chwaraeon Cymru, 215

O ran y diwygiadau i ddileu hawl rhieni i dynnu eu plant o wersi, roedd rhai yn pryderu y gallai hyn arwain at dynnu plant a phobl ifanc o'r system addysg yn gyfan gwbl:

We believe there may be some uncertainties from various religious groups, as the curriculum may deliver content that goes against their religious views and beliefs. This may lead to confrontation on issues including abortion, contraception and same-sex relationships. The removal of the parental right to withdraw will cause concern which could potentially result in some parents choosing to home school their children.

Grŵp Gwella Awdurdodau Lleol Consortia De Ddwyrain Cymru, 118

Soniodd ysgolion â chymeriad crefyddol am eu pryderon hefyd ynghylch y posibilrwydd y byddai'r diwygiadau yn mynd yn groes i'w gweithredoedd ymddiriedolaeth:

A clear unintended consequence of the Bill is that it is putting Catholic schools in breach of their legal duty to comply with trust deed... There is a negative assumption here that RE in Catholic schools is not balanced and pluralistic in its content. This is absolutely not the case. It is clear to see from Estyn and Section 50 reports that there is RE of the highest quality happening in our Catholic schools that is academically rigorous and provides a balanced overview of society...

Athro Astudiaethau Crefyddol, 200

6 Goblygiadau Ariannol

Roedd y pryderon amlycaf a godwyd gan yr ymatebwyr yn yr ymgynghoriad yn canolbwyntio ar y goblygiadau ariannol ac o ran adnoddau yn sgil y cwricwlwm newydd. Soniodd yr ymatebwyr am amryw o faterion ymarferol, gan gynnwys yr amser, yr adnoddau a'r gefnogaeth angenrheidiol y byddai eu hangen ar ymarferwyr, athrawon ac ysgolion i weithredu'r cwricwlwm newydd yn llwyddiannus.

Teimlai rhai, er enghraifft, y byddai'r newid o ddiwylliant cymharol ragnodol o ran y cwricwlwm i ddull sy'n dilyn dibenion penodol, gan ofyn i'r ymarferwyr ac athrawon ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros y newid ac i ddatblygu'r cwricwlwm, yn gofyn iddynt ddatblygu sgiliau ac arbenigedd newydd. O'r safbwyntiau hyn ac ar draws pob lleoliad, roedd datblygiad proffesiynol yn allweddol i gefnogi'r gwaith o weithredu'r cwricwlwm newydd yn effeithiol:

[National Day Nurseries Association Wales] agrees that although the new curriculum reflects the Foundation Phase principles and pedagogy and within most settings... we believe there is also a requirement to ensure that resources and support are proportionate by those received in schools and maintained settings. NDNA Cymru would also like to see the commitment to also fund further development of the workforce through re-fresher courses and follow –up support, to offset the high staff turnover observed in the early year's sector and ensure truly effective implementation.

Fe wnaeth nifer o ymatebwyr hefyd sôn am faterion a phryderon mewn perthynas â'r trefniadau cyfredol a'u dehongliad o oblygiadau ariannol y Bil. Mae hanfod nifer o'r pryderon a fynegwyd gan yr ymatebwyr yn gysylltiedig â phroblemau a heriau cyfredol y teimlent eu bod yn wynebu'r byd addysg. Cyfeiriwyd at faterion fel y llwyth gwaith trwm presennol, y diffyg cyfleoedd i ddatblygu'n broffesiynol, a throsiant staff sylweddol oll fel rhwystrau posibl yr oedd angen mynd i'r afael â nhw'n bennaf trwy gynyddu'r adnoddau a'r gefnogaeth:

The financial situation is challenging, even more so due to the pandemic; this makes the substantial task of curriculum reform difficult for schools. The supply days needed to allow for staff's professional development and work in the new curriculum as outlined in the Explanatory Memorandum, Sept 2020, are significant. As well as the financial costs to release staff, there will inevitably be an impact on teaching and learning for the pupils currently in the system.

Cyngor Abertawe, 142

Cododd yr ymatebwyr faterion hefyd ynghylch y goblygiadau o ran adnoddau wrth wella ac ehangu darpariaeth benodol. Roedd hyn yn cynnwys ystod amrywiol o agweddau ar addysg, gan gynnwys darpariaeth y Gymraeg yn ogystal â phynciau gan gynnwys leithoedd Tramor Modern ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.

Bydd angen buddsoddiad sylweddol yn y gweithlu ac mewn adnoddau ar gyfer ysgolion Saesneg a dwyieithog os am ehangu'r ddarpariaeth Gymraeg a chyflawni amcanion y cwricwlwm.

Comisiynydd y Gymraeg, 70

NSPCC Cymru welcomes the agreement from Welsh Government that professional learning will be required in order for teachers to gain the knowledge and confidence to embed relationships and sexuality education within their teaching. However, we are disappointed that financial resources have not been specifically allocated to schools for professional learning on RSE.

NSPCC Cymru, 60

Soniodd ysgolion â chymeriad crefyddol hefyd am y gofyniad penodol i ddarparu addysg grefyddol enwadol a gwersi Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg plwraliaethol pe bai rhieni'n gofyn am hynny, gan ddweud y byddai hynny'n esgor ar faich ariannol ac adnoddau ychwanegol.

Teimlai Archwilio Cymru ei bod yn anodd deall ac amcangyfrif gwir oblygiadau ariannol y Bil. O'r safbwynt hwn, byddai angen rhagor o wybodaeth i ddeall y costau llawn sy'n gysylltiedig â'r Bil, gan gynnwys y costau sy'n ymwneud â datblygu adnoddau dysgu, a'r costau sy'n gysylltiedig â disgwyliadau newydd yn y cwricwlwm, megis y rhai o ran y Gymraeg. Roedd yr

ymateb hefyd yn amlygu'r posibilrwydd bod rhai rhagamcanion yn debygol o danamcangyfrif y gwir gostau sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm newydd:

It appears to us that estimated opportunity costs mean that schools will be required to absorb almost 480,000 days of staff time in 2020-21 (estimates range from 239,294 to 717,882). There is a question of whether schools can absorb this amount of time without affecting the progress of current learners and/or staff, particularly in the light of the additional work that is planned to mitigate the impact of COVID-19 disruption on learners and the on-going additional learning needs transformation programme.

Archwilio Cymru, 205

7 Pwerau yn y Bil

Ar y cyfan, o'r rhai a gynigodd eu barn ar y pwerau a roddir i Weinidogion yn y Bil, roedd y rhan fwyaf yn eu cefnogi'n amodol. Roedd cydnabyddiaeth eang o bwysigrwydd cynnal hyblygrwydd ac ymatebolrwydd i'r newidiadau mewn tueddiadau a blaenoriaethau addysgol. O'r safbwyntiau hyn, teimlwyd ei bod yn bwysig bod fframweithiau deddfwriaethol yn cefnogi esblygiad a datblygiad y cwricwlwm, gan gynnwys trwy is-ddeddfwriaeth:

The powers would seem appropriate. In the light of evaluation and development of the new national curriculum it would appear sensible to have these in place to introduce modifications rather than return to primary legislation.

Gweithiwr proffesiynol, 101

Fodd bynnag, roedd pryderon ynghylch rôl yr ymgynghori a'r craffu a gaed yn y cynigion, a faint o ymgynghori a chraffu a fu. Teimlai nifer y dylid cydbwysio hyblygrwydd ac ymatebolrwydd â thrafodaethau a gwaith craffu priodol ac effeithiol. O'r safbwyntiau hyn, mae gwaith craffu yn bwysig i sicrhau bod unrhyw ddiwygiadau dilynol yn gydgyssylltiedig ac yn effeithiol:

Generally, we think it is sensible that Ministers have the powers to make amendments to make adaptations as necessary. Although there is a danger that the curriculum could be tinkered with on a piecemeal basis for political reasons rather than for sound, educational reasons. Following evidenced-based approaches and consulting with stakeholders is paramount.

Awdurdod Lleol, 142

Teimlai rhai nad oedd y Bil yn sicrhau'r cydbwysedd cywir, ac y dylid rhoi mwy o bwyslais ar graffu yn y Bil. Ailadroddwyd un thema yn y safbwyntiau hyn gan ganolbwyntio ar y syniad y gallai mwy o hyblygrwydd esgor ar fwy o ddiwygio pellach yn dragwyddol, gan darfu ar ymarferwyr, athrawon ac ysgolion:

The [Education Workforce] Council notes that significant or unforeseen changes [to the curriculum] could potentially have a negative impact upon the smooth rollout of the new curriculum across Wales. The Council particularly notes the potential for significant changes to be introduced (perhaps even ahead of September 2022), if there is a change in the political direction of the Welsh Government following the Senedd election, in May next year... Whilst the powers to provide the opportunity for Ministers to make sure that schools are addressing important topics, the Council believes that it will also be important to ensure that the new curriculum does not incrementally become over-prescriptive.

Cyngor y Gweithlu Addysg, 111

Rwy'n pryderu am bŵer Gweinidogion o dan adran 5 o'r Bil i greu Rheoliadau er mwyn ychwanegu, dileu neu ddiwygio'r meysydd dysgu a phrofiad, yr elfennau gorfodol a'r sgiliau trawsgwricwlaidd a nodwyd. Er fy mod i'n derbyn bod hyn yn caniatáu hyblygrwydd dros amser er mwyn ymateb i newid cymdeithasol, technolegol a datblygiadau ym maes ymchwil addysg, rwy'n pryderu y gallai hyn greu risg ar gyfer rhai Meysydd Dysgu a Phrofiad ac elfennau gorfodol eraill sydd heb ennill eu plwyf i'r un graddau

Comisiynydd Plant Cymru, 97

Llorenc O'Prey a Tony Jones
Hydref 2020
Llorenc.oprey@wavehill.com

Atodiad

Dyma'r cwestiynau a ymddangosodd yn yr ymgynghoriad:

1. Egwyddorion cyffredinol y Bil

1.1 Ydych chi'n cefnogi egwyddorion y [Bil Cwricwlwm ac Asesu \(Cymru\)](#)? Wrth ddod i farn ar y cwestiwn hwn, cwestiwn 1.2 a chwestiwn 1.3, efallai yr hoffech ystyried y cwestiynau a ganlyn:

- A oes angen cwricwlwm newydd, ac os felly, pam? A ddylai unrhyw gwricwlwm newydd fod yn bwrpasol ac yn seiliedig ar sgiliau, fel y nodir yn y Bil?
- Beth yw eich barn ar y ffordd y bydd y Cwricwlwm i Gymru wedi ei strwythuro a'i drefnu? (*Er enghraifft, y pedwar diben, y chwe Maes Dysgu a Phrofiad, a'r tair sgil drawsgwricwlaidd a nodir yn y Bil, a'r ddarpariaeth ar gyfer Cod yr Hyn sy'n Bwysig a chanllawiau statudol a gyhoeddir i roi rhagor o fanylion ynghylch pob Maes Dysgu a Phrofiad*)
- Beth yw eich barn am yr elfennau gorfodol yn y cwricwlwm o ran 'Crefydd, gwerthoedd a moeseg' ac 'Addysg cydberthynas a rhywioldeb'?
- I ba raddau mae'r Bil yn darparu'n ddigonol ar gyfer dysgu'r Gymraeg a'r Saesneg fel pynciau yn y cwricwlwm newydd?
- Beth yw eich barn am y darpariaethau ar gyfer gwneud eithriadau ynghylch gofynion yn y cwricwlwm?
- Beth yw eich barn am y gofynion arfaethedig yn y cwricwlwm mewn lleoliadau nad ydynt yn ysgolion, megis unedau cyfeirio disgyblion a meithrinfeydd a ariennir nas cynhelir?
- Beth yw eich barn am y darpariaethau yn y Bil ar gyfer asesu a chynnydd dysgwyr?

Ie		Yn rhannol		Na		Dim barn	
----	--	------------	--	----	--	----------	--

1.2 Amlinellwch eich rhesymau dros eich ateb i gwestiwn 1.1

1.3 A ydych yn credu bod angen deddfwriaeth i gyflawni'r hyn y mae'r Bil hwn yn ceisio'i gyflawni?

2. Gweithredu'r Bil

- 2.1 A oes gennych unrhyw sylwadau am unrhyw rwystrau posibl rhag gweithredu'r Bil? Os na, ewch i gwestiwn 3.1

- 2.2 A ydych yn credu bod y Bil yn ystyried y rhwystrau posibl hyn?

3. Canlyniadau anfwriadol

- 3.1 A ydych yn credu bod unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn deillio o'r Bil? Os na, ewch i gwestiwn 4.1

4. Goblygiadau ariannol

- 4.1 A oes gennych farn am oblygiadau ariannol y Bil (fel y'u nodir yn Rhan 2 o'r [Memorandwm Esboniadol](#))? Os nad oes, ewch i gwestiwn 5.1

5. Pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth

- 5.1 A oes gennych unrhyw sylwadau am addasrwydd y pwerau yn y Bil i Weinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth (fel y'i nodir ym Mhennod 5 o Ran 1 o'r [Memorandwm Esboniadol](#)). Os nad oes, ewch i gwestiwn 6.1

6. Ystyriaethau eraill

- 6.1 A oes gennych unrhyw bwyntiau eraill yr hoffech eu gwneud am y Bil hwn?